


# The South Wales Coalfield Collection



## Research Resources in Medical History



The South Wales Coalfield Collection covers the period from the latter half of the nineteenth-century to the 1980s. The core of the Collection was built around two SSRC projects between 1971 and 1982, which sought to preserve written and oral evidence of coal miners and coal mining in the region. Strengthened by subsequent deposits, it has become a unique collection of international significance that is one of the largest of its kind in the UK.



### Documentary holdings include

- + books, periodicals, pamphlets, and newspaper cuttings
- + records of the Miners' Federation and the South Wales Area of the National Union of Miners
- + records of miners' lodges and institutes, friendly societies and co-operative societies
- + personal papers

### Oral and visual holdings include

- + 600 hours of oral history interviews
- + 4,000 photographs
- + 200 hours of video footage
- + 100 posters
- + 42 trade union banners


### The records contain material relevant to occupational health

- + Mining-specific diseases
- + Work-related illness and disability
- + Accidents
- + Safety and welfare

### and community health

- + Community diseases
- + Personal illness and disability
- + Housing and public sanitation
- + Maternal and child health
- + Food and nutrition
- + Healthcare personnel
- + Medical institutions

In the past, these medical records were not easy to find. Now as a result of a Research Resources in Medical History award from the Wellcome Trust, they will be searchable on the Coalfield Web Materials [www.agor.org.uk/cwm](http://www.agor.org.uk/cwm). The website has a new Medicine and Health theme, with digitised images and explanatory text. A printed Guide to the Collection is in preparation, which will highlight its relevance to medical history.



### Useful website addresses

South Wales Coalfield Collection  
[www.swan.ac.uk/swcc](http://www.swan.ac.uk/swcc)

Archives Network Wales  
[www.archivesnetworkwales.info](http://www.archivesnetworkwales.info)

ARCHON (UK archive repositories)  
[www.archon.nationalarchives.gov.uk/archon](http://www.archon.nationalarchives.gov.uk/archon)

Gathering the Jewels [www.gtj.org.uk](http://www.gtj.org.uk)

**Manuscript material and photographs** are available to view at the Archives, Library and Information Services, Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP. Tel: 01792 295021, Email: [archives@swan.ac.uk](mailto:archives@swan.ac.uk)

### Opening hours

Term-time and vacation  
Monday-Friday 9.15am-1.00pm  
and 2.00pm-5.00pm

Tuesday evening  
(term time only) 6.00pm-9.30pm

Access to the Archives is by appointment only. Appointments for Tuesday evenings must be made by noon on the previous Friday. Please note that the required documents must be specified in advance.

### Pamphlets, posters, audio-visual material, newspaper cuttings, banners, and books

are available at the South Wales Miners' Library, Hendrefoelan House, Gower Road, Swansea, SA2 7NB. Tel: 01792 518603/518693, Fax: 01792 518694, Email: [miners@swan.ac.uk](mailto:miners@swan.ac.uk)

### Opening hours

Term-time  
Monday-Friday 10.00am-5.00pm  
Saturday 10.00am-4.30pm  
Sunday Closed

During term time, the Library is normally open until 7pm a few evenings per week. Please contact the South Wales Miners' Library for details.

Vacation  
Monday-Friday 10.00am-5.00pm  
Saturday-Sunday Closed

The SWML is closed on Bank Holidays and for a short period at Christmas and Easter. Please phone us nearer these times to check our opening hours.

Copyright Disclaimer: If we have inadvertently made use without permission of any materials in which you believe you may own rights, we hope that we have not caused offence and would ask you to contact us as soon as possible.

# Casgliad Maes Glo De Cymru



## Adnoddau Ymchwil mewn Hanes Meddygol



Mae Casgliad Maes glo De Cymru yn cwmpasu'r cyfnod rhwng hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r 1980au. Ffurfiwyd craidd y Casgliad o amgylch dau brosiect SSRC rhwng 1971 a 1982, gyda'r nod o ddiogelu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar am lowyr a chodi glo yn yr ardal. Wedi ei gryfhau gan adneuo diweddarach, mae bellach yn gasgliad unigryw o arwyddocâd rhyngwladol sydd yn un o'r mwyaf o'i fath yn y DU.



### Mae daliadau dogfennol yn cynnwys

- + llyfrau, cyfnodolion, pamffledi a thoriadau papur newydd
- + cofnodion Ffederasiwn y Glowyr ac Ardal De Cymru Undeb Cenedlaethol y Glowyr
- + cofnodion cyfrinfeydd a sefydliadau, cymdeithasau cyfeillgar a chymdeithasau cydweithredol y glowyr.
- + papurau personol

### Mae daliadau llafar a gweledol yn cynnwys

- + 600 o oriau o gyfweiliadau yn cofnodi hanes ar lafar
- + 4,000 o luniau
- + 200 o oriau o hen ffilm ar fideo
- + 100 o bosteri
- + 42 o faneri undebau llafar

Mae'r cofnodion yn cynnwys deunydd perthnasol ar iechyd galwedigaethol

- + Clefydau penodol yn ymwneud â chodi glo
- + Salwch ac anabledd mewn perthynas â gwaith
- + Damweiniau
- + Diogelwch a lles

ac iechyd cymunedol

- + Clefydau cymunedol
- + Salwch ac anabledd personol
- + Glanweithdra a charthffosiaeth mewn tai a manau cyhoeddus
- + Iechyd mam a phlentyn
- + Bwyd a maeth
- + Gweithwyr gofal iechyd
- + Sefydliadau meddygol

Yn y gorffennol, nid oedd y cofnodion meddygol hyn yn rhydd i'w cafnod. Nawr, o ganlyniad i Wobr Adnoddau Ymchwil mewn Hanes Meddygol gan Ymddiriedolaeth Wellcome, gellir eu hymchwilio ar wefan Deunyddiau Gwe'r Maes Glo

[www.agor.org.uk/cwm](http://www.agor.org.uk/cwm). Mae gan y wefan thema Meddygaeth a Iechyd newydd, gyda delweddau digidol a thestun esboniadol. Mae Canllaw argraffiedig i'r Casgliad ar y gweill, a fydd yn tanlinellu ei bwysigrwydd i hanes meddygol.



Cyfeiriadau gwefan defnyddiol

Casgliad Maes Glo De Cymru [www.swan.ac.uk/swcc](http://www.swan.ac.uk/swcc)

Rhwydwaith Archifau Cymru [www.archivesnetworkwales.info](http://www.archivesnetworkwales.info)

ARCHON (Archifdai'r DU) [www.archon.nationalarchives.gov.uk/archon](http://www.archon.nationalarchives.gov.uk/archon)

Casglu'r Tlysau [www.gtj.org.uk](http://www.gtj.org.uk)

Mae **deunydd llawysgrif a lluniau** ar gael i'w gweld yn yr Archifau, Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP. Rhif ffôn: 01792 295021, E-bost: [archives@swan.ac.uk](mailto:archives@swan.ac.uk)

### Oriau Agor

Yn ystod y tymor a'r gwyliau  
Llun-Gwener 9.15am-1.00pm  
a 2.00pm-5.00pm

Nos Fawrth (yn ystod y tymor yn unig) 6.00pm-9.30pm

Dim ond trwy apwyntiad y ceir mynediad at yr Archifau. Rhaid gwneud apwyntiadau ar gyfer nosweithiau Mawrth erbyn hanner dydd y dydd Gwener cynt. Noder bod rhaid nodi'r union ddogfennau y bydd eu hangen arnoch ymlaen llaw.

Mae **pamffledi, poster, deunydd clyweledol, toriadau papur newydd, baneri a llyfrau** ar gael yn Llyfrgell Glowyr De Cymru, Tŷ Hendrefoelan, Heol Gŵyr, Abertawe, SA2 7NB. Rhif ffôn 01792 518603/518693, Rhif ffacs: 01792 518694, E-bost: [miners@swan.ac.uk](mailto:miners@swan.ac.uk)

### Oriau agor

Yn ystod y tymor  
Llun-Gwener 10.00am-5.00pm  
Sadwrn 10.00am-4.30pm  
Sul Ar gau

Yn ystod y tymor, mae'r Llyfrgell fel arfer ar agor tan 7pm ambell noson yn ystod yr wythnos. Cysylltwch â Llyfrgell Glowyr De Cymru am wybodaeth.

Gwyliau  
Llun-Gwener 10.00am-5.00pm  
Sadwrn-Sul Ar gau

Mae LIGDC ar gau ar Wyliau Banc ac am gyfnod byr dros y Nadolig a'r Pasg. Byddwch gystal â'n ffonio yn nes at yr amseroedd hyn er mwyn gwirio ein horiau agor.

Ymwadiad Hawlfraint: Os ydym drwy amryfusedd wedi gwneud defnydd heb ganiatâd o unrhyw ddeunyddiau y credwch fod gennych hawliau arnynt, gobeithiwn nad ydym wedi peri tramgwydd a byddem yn gofyn i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosib.